Cynghrair Niwrolegol Cymru
Wales Neurological Alliance

# Adroddiad Blynyddol 2015 a Datganiad Ariannol
# Y Grŵp Trawsbleidiol ar Gyflyrau Niwrolegol

## Nodau ac Amcanion

**Nod**
I wella gwasanaethau ar gyfer pobl yr effeithir arnynt gan gyflyrau niwrolegol

**Amcanion**
1. I ymgysylltu â phobl yr effeithir arnynt gan gyflyrau niwrolegol a gweithio mewn partneriaeth â hwy.
2. Codi ymwybyddiaeth o gyflyrau niwrolegol a'u heffaith ar unigolion a'u cymunedau.
3. I roi gwybodaeth i Lywodraeth Cymru am anghenion pobl yr effeithir arnynt gan gyflyrau niwrolegol, ac i ddylanwadu arni.
4. I gefnogi a hyrwyddo ymchwil briodol

## Aelodaeth a Chyfarfodydd y grŵp:

Bydd y Grŵp yn cynnwys Aelodau Cynulliad o dair o leiaf o'r pleidiau gwleidyddol a gynrychiolir yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru, a chynrychiolwyr o Bwyllgor Gweithredol Cynghrair Niwrolegol Cymru. Mae'r cyfarfodydd yn agored i'r cyhoedd, ond anfonir gwahoddiadau penodol at sefydliadau sy'n aelodau o Gynghrair Niwrolegol Cymru neu unigolion eraill sydd â diddordeb mewn cyflyrau niwrolegol y bydd y cadeirydd a'r ysgrifennydd yn dewis eu gwahodd yn benodol.

Ar hyn o bryd, yr aelodau yw:
Mark Isherwood AC (Cadeirydd)
John Griffiths AC
Elin Jones AC
Kirsty Williams AC
Keith Davies AC
Megan Evans - Cynghrair Niwrolegol Cymru (Ysgrifennydd)
Ana Palazon - Y Gymdeithas Strôc (Cadeirydd
Cynghrair Niwrolegol Cymru)
Dave Maggs – Headway
Ann Sivapatham - Gweithredu ar Epilepsi
Kevin Thomas - Cymdeithas Clefyd Motor Niwron
Urtha Felda - Cymdeithas MS Cymru
David Murray - Ymddiriedolaeth Cure Parkinson
Kate Steele - Shine Cymru
Barbara Locke - Clefyd Parkinson DU

Carol Smith - Cymdeithas Clefyd Motor Niwron
Lynne Hughes - Cymdeithas MS Cymru

**<u>Lobïwyr proffesiynol, sefydliadau gwirfoddol ac elusennau y mae'r Grŵp wedi cyfarfod â hwy yn ystod y flwyddyn flaenorol</u>**

Nid oedd yw'r grŵp wedi cwrdd ag unrhyw lobïwyr proffesiynol. Gellir cael manylion am fudiadau gwirfoddol ac elusennol sy'n dod i'r cyfarfodydd yn adran 'Cyfarfodydd y grŵp' o'r adroddiad.

**<u>Cyfarfodydd</u>**

Yn 2015, cyfarfu'r Grŵp Trawsbleidiol dair gwaith, Mawrth 2015, Mehefin 2015 a Medi 2015.

**Mawrth 2015**

Roedd cyfarfod cyntaf y flwyddyn yn canolbwyntio ar gydgynhyrchu a'i bwysigrwydd yn y Cynlluniau Cyflawni Niwrolegol. Agorwyd y cyfarfod gan David Murray sy'n un o dri chynrychiolydd o Gynghrair Niwrolegol Cymru ar Grŵp Gweithredu'r Cynllun Cyflawni Niwrolegol a bu'n trafod ei rôl fel cynrychiolydd cleifion.

Yna rhoddodd Ben Dineen o SPICE gyflwyniad ar egwyddorion ac arferion cydgynhyrchu. Mae cydgynhyrchu yn ddull system gyfan tuag at gomisiynu, cynllunio, darparu a gwerthuso gwasanaethau a ddarperir, gyda phawb yn rhannu pŵer ac yn rhannu cyfrifoldeb. Darparodd hefyd enghreifftiau o gydgynhyrchu ar waith yng Nghymru.

Yn olaf, siaradodd yr Athro William Grey o'r Uned B.R.A.I.N., Prifysgol Caerdydd am gynnwys cleifion mewn gwaith ymchwil. Rhoddodd gyflwyniad am y gwaith a fydd yn cael ei gynnal yn yr uned B.R.A.I.N. Y nod yw i'r uned fod yn ganolfan ragoriaeth yng Nghymru a'r DU ar gyfer cyflwyno therapïau celloedd/cyffuriau/ffactorau twf newydd i gleifion â chlefydau niwrolegol a niwroddirywiol na ellir eu trin ar hyn o bryd.

<u>Cofnodion cyfarfod 24 Mawrth 2015</u>

**Mehefin 2015**

Yn 2012 cynhaliodd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol ymchwiliad undydd ar wasanaethau cadeiriau olwyn yng Nghymru. Diben yr ymchwiliad oedd ystyried i ba raddau y mae'r argymhellion a wnaed gan Adroddiad Pwyllgor Iechyd, Lles a Llywodraeth Leol y Trydydd Cynulliad ar Wasanaethau Cadeiriau Olwyn yng Nghymru (a gyhoeddwyd ym mis Mai 2010) wedi eu gweithredu. Cydnabu'r ymholiad fod cynnydd wedi'i wneud ers 2010 - yn enwedig o safbwynt rheoli a rheoli perfformiad mewnol ond nid oedd hyn o reidrwydd wedi arwain at welliannau o ran gwasanaethau ar gyfer defnyddwyr presennol / y dyfodol.

Roedd y cyfarfod hwn o'r Grŵp Trawsbleidiol wedi'i neilltuo i adolygu a yw'r gwelliannau bellach yn cael effaith ar ddefnyddwyr gwasanaeth. Clywodd y cyfarfod gan ddau ddefnyddiwr gwasanaeth a ddisgrifiodd broblemau gyda chynnal a chadw cadeiriau yn ogystal â materion o ran amnewid rhannau sydd wedi torri neu wedi treulio.

Cawsom wybod hefyd am strwythur a diben y Bwrdd Ystum Corff a Symudedd. Mae gweithgor technegol a gweithgor rhanddeiliaid ar gyfer monitro'r gwasanaethau hyn yn ofalus i sicrhau defnydd priodol o ganllawiau Llywodraeth Cymru. Mae'r grŵp rhanddeiliaid yn cynnwys lleisiau defnyddwyr gwasanaethau o bob rhan o Gymru.

Cofnodion cyfarfod 9 Mehefin 2015

**Medi 2015**

Yn y cyfarfod clywsom gan David Linden, Athro Niwrowyddoniaeth Drosiadol, Prifysgol Caerdydd, Seiciatrydd Ymgynghorol Anrhydeddus, Cadeirydd CVUHB, Y Gyfadran Niwroseiciatreg, Coleg Brenhinol y Seiciatryddion yng Nghymru a Dr Tanya Edmonds, Niwroseicolegydd Clinigol Ymgynghorol Arweiniol, Adran Niwroseicoleg, Ysbyty Treforys.

Cytunwyd bod asesiad cynnar yn hanfodol ond mae Cymru ar ei hôl hi yn y DU er bod costau hir dymor diffyg ymyriad yn enfawr. Yn gyffredinol, ychydig iawn o adnoddau sydd ar gyfer pobl â phroblemau niwroseicolegol yng Nghymru gan yr ystyrir yn aml nad ydynt yn briodol ar gyfer Timau Iechyd Meddwl lleol.

Cofnodion cyfarfod 22 Medi 2015

## Datganiad Ariannol

Telir yr holl gostau gan Gynghrair Niwrolegol Cymru.

| | **Llety ac arlwyo** | **Treuliau** |
|---|---|---|
| Mawrth 2015 | £55.80 | £328.25 |
| Mehefin 2015 | £79.80 | £0.00 |
| Medi 2015 | £68.28 | £0.00 |
| **Cyfanswm** | **£203.88** | **£328.25** |
| | | |
| **Cyfanswm y cyfan** | **£532.13** | |